OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2370 (Cy.205)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (Uchafsymiau a Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Medi 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *9 Medi 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Hydref 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 23(1)(l), 33 a 146 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (Uchafsymiau a Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 2 Hydref 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

### Uchafswm y grant ar gyfer cyfleusterau i'r anabl

**2.** Pan fo raid i awdurdod tai lleol gymeradwyo cais am grant ar gyfer cyfleusterau i'r anabl yn rhinwedd adran 23(1) o'r Ddeddf (grantiau: dibenion y mae'n rhaid rhoi grant ar eu cyfer neu ddibenion y caniateir rhoi grant ar eu cyfer), £36,000 yw'r uchafswm y caiff yr awdurdod ei dalu o ran y cais.

### Dibenion y caniateir rhoi grant ar eu cyfer

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Pennod 1 o Ran 1 o'r Ddeddf, rhaid cymeradwyo cais am grant ar gyfer cyfleusterau i'r anabl pan fo'r cais yn gais at ddiben a bennir ym mharagraff (2).

(**1**) 1996 p. 53.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) mae'r swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru.

(2) Dyma'r dibenion——

(a) hwyluso mynediad i ardd ac o ardd gan feddiannydd anabl(**3**); neu

(b) gwneud mynediad i ardd yn ddiogel i feddiannydd anabl.

(3) At ddibenion paragraff (2) ystyr "gardd" yw gardd sy'n perthyn i annedd neu a fwynheir fel arfer ynghyd ag annedd(**4**), carafán(**5**) neu fflat(**6**) a feddiennir gan feddiannydd anabl ac mae'n cynnwys—

(i) balconi sy'n cyffinio ag annedd meddiannydd anabl;

(ii) buarth, tŷ allan neu atodyn arall o fewn ffiniau'r tir lle y mae annedd neu garafán meddiannydd anabl wedi ei leoli ac sy'n perthyn iddo neu a fwynheir fel arfer gydag ef;

(iii) buarth, tŷ allan, neu atodyn arall o fewn ffiniau'r tir lle y mae'r adeilad y mae annedd neu, yn ôl y digwydd, fflat meddiannydd anabl wedi ei leoli ac sy'n perthyn iddo neu a fwynheir fel arfer gydag ef; a

(iv) y tir cyfagos i angorfa cwch preswyl cymwys y meddiannydd anabl(**7**).

(4) Os ym marn yr awdurdod tai lleol y mae'r gwaith perthnasol yn fwy neu lai helaeth na'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni diben a osodir ym mharagraff (2), caiff, gyda chydsyniad y ceisydd, drin y cais fel petai wedi ei amrywio fel bod y gwaith perthnasol yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw sydd ym marn yr awdurdod tai lleol yn angenrheidiol at y diben hwnnw neu yn cynnwys y cyfryw waith.

(5) Yn yr erthygl hon ystyr "ceisydd" yw'r person sy'n gwneud y cais am grant o dan Bennod 1 o Ran 1 o'r Ddeddf.

### Darpariaethau sy'n peidio â bod yn effeithiol yng Nghymru

**4.** Mae erthyglau 2 a 3 o Orchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Chymorth Trwsio Cartrefi (Uchafsymiau) 1996(**8**) yn peidio â bod yn effeithiol o ran Cymru.

*Jocelyn Davies*
O dan awdurdod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru.

6 Medi 2008

(**3**) Am ystyr "meddiannydd anabl" *gweler* "*disabled occupant*" yn adran 20 o'r Ddeddf.
(**4**) Am ystyr "annedd" *gweler* "*dwelling*" yn adran 101 o'r Ddeddf.
(**5**) Am ystyr "carafán" *gweler* "*caravan*" yn adran 58 o'r Ddeddf.
(**6**) Am ystyr "fflat" *gweler* "*flat*" yn adran 58 o'r Ddeddf.
(**7**) Am ystyr "cwch preswyl cymwys" *gweler* "*qualifying houseboat*" yn adran 58 o'r Ddeddf.
(**8**) O.S. Rhif 1996/2888.

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn (sy'n gymwys o ran Cymru) yn rhagnodi uchafswm y grant ar gyfer cyfleusterau gorfodol i'r anabl y gall fod yn ofynnol i awdurdod tai lleol ei dalu o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladau ac Adfywio 1996 ("y Ddeddf"). Yn unol ag erthygl 2, £36,000 yw'r uchafswm.

Mae adran 23(1) o'r Ddeddf yn pennu'r dibenion, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Pennod 1 o Ran 1 o'r Ddeddf, y mae'n rhaid cymeradwyo cais am grant ar eu cyfer. Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn pennu dibenion ychwanegol y mae'n rhaid cymeradwyo cais am grant ar eu cyfer, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Pennod 1 o Ran 1 o'r Ddeddf gael eu bodloni. Y dibenion penodedig yw ei gwneud yn hwylus i feddiannydd anabl fynd i ardd (a ddiffinnir yn erthygl 3(3)) ac o ardd, a'i gwneud yn ddiogel i'r meddiannydd anabl fynd i ardd a dod ohoni.

Mae erthyglau 2 a 3 o Orchymyn Grantiau Cyfleusterau a Chymorth Trwsio Cartrefi (Uchafsymiau) 1996 sy'n gymwys i Gymru a Lloegr, yn gosod uchafswm y grant at gyfleusterau gorfodol i'r anabl yn £30,000 o ran Cymru. Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn darparu i'r erthyglau hynny beidio â bod yn effeithiol o ran Cymru.